

## ❖ GWROGAETH A DALWN

Gwrogaeth a dalwn i Grëwr ein byd,  
 Ac Awdur ei frith greaduriaid i gyd;  
 Uchafbwynt a champwaith ei gread yw Dyn  
 A luniwyd gan Dduw ar ei ddelw a'i lun;  
 Darganfu yn Eden baradwys wir hardd,  
 Ac yna ei cholli yng nghodwm yr ardd,  
 Can's torrwyd y cwlwm rhwng dynion a Duw,  
 Pan lygrwyd dynolryw gan bechod a'i friw.

Cyfamod o'r newydd, medd proffwyd, a wneir,  
 O bren crin y boncyff blaguryn a geir,  
 A changen addawol a gyfyd o'r gwraidd:  
 Cyff Jesse rydd eto Ben-bugail i'r praidd,  
 A hen ddinas Dafydd, er lleied ei maint,  
 Yn ddinas frenhinol drachefn – y fath fraint!  
 Can's yno y genir Gwarddwr y byd,  
 Crist Iesu, cyflawnder yr oesau i gyd.

Mor amrwd ei breseb ac isel ei stad,  
 A Herod yn unben ar fywyd y wlad;  
 Er hynny, fe gafodd ar fynwes ei fam  
 Lochesu rhag dichell a'i gadw rhag cam;  
 I'r stabal daeth atynt o'r meysydd gerllaw  
 Y gwylaidd fugeiliaid mewn arswyd a braw,  
 A hwythau'r seryddion, gan ddwyn offrwm drud  
 Yn deyrnged haeddiannol o amgylch ei grud.

Prif fyrdwn ei neges pan dyfodd yn ddyn  
 Oedd Duw yn teyrnasu ar fywyd pob un,  
 Boed bonedd neu werin, boed satyr neu sant,  
 Yr un oedd ei bwyslais, gan daro'r un tant;  
 Estynnai drugaredd i'r truan a'r gwan,  
 A cherydd yn llym i'r trahaus ymhob man,  
 Heb flewyn ar dafod fe heriodd bob drwg,  
 Heb geisio gwên dynion nac ofni eu gwg.

Nid dedfryd gan Peilat na Chaiaffas 'chwaith  
 A bennodd ei dynged ar ddiwedd y daith,  
 Ond dwyfol ragluniaeth a drefnodd mai'r groes  
 A ddwg fuddugoliaeth ar bechod pob oes;  
 Mor flin fu'i ddioddefaint ar drostan o bren,  
 Mor bigog y ddraenen yn bleth ar ei ben;  
 Ond coron y cyfan, a sylfaen ein hedd,  
 Yw gwyrrth atgyfodiad Crist Iesu o'r bedd.

**Maurice Loader**